




tud 3
Cadw'n Gyntes

tud 6
Ffair y Neuadd

tud 10
Dod i Nabod

tud 12
yn Qatar

Y Ffair Aeaf

Wedi wythnosau prysur o baratoi, braf yw gweld fod teulu Tynant wedi cael gymaint o lwyddiant yn y Ffair Aeaf eleni eto. Cafodd Pennantliw Bleddyn yr Ail wobwr a Pennantliw Aled yr ail wobwr Gyntaf gyda'r Eidion Gwartheg Duon. Nhw oedd pencampwyr adran yr Eidion Gwartheg Duon ac Is-bencampwyr adran y Gwartheg Duon yn gyfan gwbl.

Ond fel y gwyr nifer o ddarlennwyr Papur Pawb, nid ym myd y biff yn unig y mae teulu Tynant yn serennu ond gyda'r dofednod wrth gwrs, a nifer ohonom yn mwynhau llafur caled y teulu fel rhan o'n cinio Nadolig yn flynyddol. Daeth llwyddiant arbennig unwaith eto yn y Ffair Aeaf gyda sawl gwobr gyntaf yn cynnwys; Gwobr Gyntaf ac Is-bencampwr: Gŵydd, 1af: Cyw Iâr dan 8 pwys, 1af: Cyw Iâr dros 8 pwys, 1af ac 2il: Hwyaden, 3ydd: Twrci dan 16 pwys.



Bu llwyddiant mawr gyda moch Penlan hefyd, sef teulu Eifiona Evans, Glan Aber, Tynant. Bu hi a'r plant yn cystadlu gyda'i thad, gan gipio chwe gwobr i gyd – un wobwr 1af, dwy 2il wobwr, tair 3ydd gwobr ac un 4ydd gwobr o fewn yr Adran Moch. Roedden nhw hefyd yn Is-bencampwyr y parau, a nhw gafodd y nifer uchaf o bwyntiau o fewn yr Adran Foch.

parhad tud 8



Taenwyd ton o dristwch dros y gymuned gyfan o glywed am y digwyddiadau ysgytwol sydd wedi taro teulu Glan'rafon, Tal-y-bont.

Yn enw yr holl gymuned, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ritchie a Rhian yn eu profedigaethau.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgiriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon;
John Evans; Innes Heron

Cyhoeddwyd gan

Gymdeithas Papur Pawb.

Ariennir yn rhannol gan

Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygwyd y rhifyn hwn gan Rhian a Catrin gyda Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Menna

(menna.morgan@googlemail.com)

fydd yn golygu rhifyn lonawr.

Y dyddiad cau yw 6 Ionawr a bydd y papur ar werth ar 13 Ionawr.



Cronfa Eleri

Blwyddyn 2022 – dros £28,300 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: cronfaeleri.cymru

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 12fed 2023

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gwsrs £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

RHAGFYR

9 Cwis 8 Wildfowler

10 Noson Siwmpwr Nadolig

6.30–9 Ystafell Haeam,
Eglwysfach. Casgliad tuag at
'Achub y Plant'

11 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)

Bethel 6 Gwasanaeth
Nadolig Merched y Wawr
Rehoboth 2 Judith Morris
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30

13 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Ffilm am y
diwydiant gwlan yn yr ardal'
(Mair Nutting)

17 Dal ati 10.30–11.30 Cletwr
Carolau yng Nghaffi
Cletwr 4yh

18 Bethel 10 Uno â Seion
(Zoom)

Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 4 Carolau yng
ngolau kannwyll, gyda gwin
cynnes a mins peis i ddilyn
yn Ynyshir

Taith gerdded 9–11yb
Gwarchodfa Natur Ynyshir

24 Bethel 5.30 Gwasanaeth
Noswyl Nadolig yr Ysgol
Sul

25 Bethel 10 Gwasanaeth Bore
Nadolig, Geraint Evans
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwysfach 9.30 Cymun

IONAWR

1 Bethel 10 Uno â Seion,
Gwilym Tudur

6 Cwis 8 Wildfowler

8 Bethel 10 Gwilym Tudur
(C)

10 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 'Yn fyw yn y cof'
(John Roberts)


12 Bingo 7.30 Wildfowler

Cletwr

Dydd Mawrth 1–4
'Clonc a Gweu'



Pobl a Phethe



Cystadleuaeth Cwpan y Byd

Enillydd cystadleuaeth rhifyn Tachwedd Papur Pawb oedd Tom Cosson, Dôl-pistyll, Tal-y-bont. Roedd mab Tom, Hopcyn, wrth ei fodd gyda'r wobr sef y llyfr *Cwpan y Byd 2022* gan Dylan Ebenezer.

Cydymdeimlo

Bu farw David Edwards, gynt o Temperance, Tre Taliesin, yn 83 oed, a chydymdeimlwn â'i fab, Gareth, Craig y Don, Tre Taliesin, a'r teulu oll.

Bu farw Ceredig Wyn Thomas, gynt o Cwmglo, Bont-goch, ar 17 Tachwedd yn 82 oed, a chydymdeimlwn â'i chwaer, Gwenda sy'n byw ym Mhencader, a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn â Nicola Morgan, Brynolwg, Bont-goch a Mina Morel, Llawr y Glyn, Bont-goch ill dwy wedi colli eu mamau yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd ag Anwen Howard, Brynfa, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei mam a nain i Lynwen, Carys a Geraint.

Cydymdeimlwn gyda Zoe a Keira Foster-Brown, Eglwys-fach, ar golli eu tad Chris yn ddiweddar, ac i Tracey Lovering ar golli ei phartner.

Cydymdeimlwn gydag Arwel Griffiths a'i deulu, Maes y Deri, Tal-y-bont, ar golli ei fam Elizabeth (Bet) Griffiths, Tŷ'r Ysgol, Eglwys-fach gynt, yn ddiweddar.

Eglwys-fach

Cynhaliwyd bore coffi ar dydd Sadwrn 19eg o Dachwedd, yn yr Ystafell Haearn, Eglwys-fach gyda'r elw yn mynd at gynnal a chadw'r adeilad hanfodol yma. Yma mae pob gweithgaredd yn ardal Ysgubor-y-coed yn cael eu cynnal, ac fel ym mhob man mae'r costau yn cynyddu. Codwyd y swm anrhydeddus o £300, a diolch i'r rhai a fu yn paratoi'r lluniaeth a'r raffl, a hyfryd oedd cael siawns i sgwrsio efo'n gilydd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Peter a Libby Goodman, Eglwys-fach, ar enedigaeth eu hwyres gyntaf Saoirse Olive Maidment, merch fach i Steph a Ross.

Ar y teledu

Cofiwch wyllo rhaglen Dan Do ar S4C ar nos Fercher, 21 Rhagfyr am 8.25yh, ble fydd cyfle i chi weld tŷ newydd Llion a Catrina Jenkins, Maes y Dderwen, Ffwrnais.

Cadw'n Gynnes

Gyda'r tymheredd yn disgyn a phris tanwydd yn cynyddu'n aruthrol, mae cymunedau'r ardal wedi mynd ati i gynnig cymorth ymarferol i drigolion lleol.

Yn Nhal-y-bont trefnwyd Cwtsh Cynnes (Cosy Corner) yn y Neuadd Goffa fel a ganlyn:

- 'Trowch y gwres lawr am y pnawn a dewch i'r Cwtsh Cynnes.
- Yn cychwyn pnawn Mercher, 14 Rhagfyr bydd croeso cynnes, paned a sgwrs ar gael yn Ystafell Waelod y Neuadd Goffa rhwng 1.30 a 4.30.
- Dewch i gael sgwrs, cwrdd â ffrindiau hen a newydd a mwynhau cynhesrwydd cwmni.
- Dewch â'ch gwau, neu jigso, neu chi eich hun a dim arall!
- Mae croeso i bawb o bob oed!

Ym mhlwyf Llangynfelyn mae Cletwr yn cynnig powlen o gawl a rhodyn am ddim yn y caffi ar bob dydd lau dros y gaeaf. Bydd cyfle yno i gael sgwrs a chadw'n gyfforddus gynnes.

Yn Eglwys-fach mae yna groeso cynnes yn eich aros bob pnawn dydd Mawrth, rhwng 2.00 a 4.00 yn yr Ystafell Haearn. Cyfle am sgwrs, diod cynnes, chwarae gêm fwrdd, neu pori drwy ambell i lyfr. Am fwy o fanylion cysylltwch â Harry hht@aber.ac.uk neu Claire cliztoland@gmail.com

Diolch i bawb sydd ynghlwm â'r gweithgareddau hyn.

Y Cylch a'r Ysgol



Mae plant hynaf yr ysgol wedi bod yn darllen stori i blant y Cylch Meithrin yn ystod y mis, ac fel y gwelwch o'r llun mae pawb yn mwynhau'r profiad! Mae'n braf iawn gallu bod nôl yn cynorthwyo'r Cylch Meithrin ar ôl y cyfnodau clo – edrych ymlaen i wneud mwy yn y dyfodol.

Erthygl Dod i Nabod, rhifyn Tachwedd

Yn rhifyn Tachwedd Papur Pawb roedd erthygl am Joyti Upadhyay a'i theulu. Yn anffodus roedd rhai camgymeriadau yn yr erthygl. Dylid nodi mai Upadhaya yw cyfenw Joyti, a Junu yw enw ei mam. Pan symudodd y teulu i Geredigion, swydd Junu oedd Swyddog Iechyd Meddygol Ceredigion, yn hytrach na doctor ysgolion. Tra yn yr LSE, bu Joyti yn astudio Anthropoleg, yn hytrach nac economeg gyda gwyddoniaeth wleidyddol. Ymddiheuriadau lu i Joyti a'i theulu am yr amryfusedd hwn.



Anrheg Hyfryd



Diwrnod Plant Mewn Angen



Her ddarllen Llyfgell Ceredigion



Diwrnod y Cofio



Ffair y Neuadd



Cogurdd



Diwrnod y Cofio



Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd

Ysgol Tal-y-bont

Siarter iaith

Ymweliad Awdures

Ers y pandemig, rydym wedi dod i arfer defnyddio TEAMS fel ffordd o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Ac er bod elfennau rhwystredig i hynny, mae wedi hwyluso gallu ymweliadau rhithiol. Felly, braf iawn oedd gallu croesawu'r awdures Manon Steffan Ros i ddosbarth Blwyddyn 6 dros y sgrin! Roedd y plant wrth eu boddau'n gwrando ar awdures mor brofiadol yn trin a thrafod ei llyfrau 'Fi a Joe Allen' a 'Fi ac Aaron Ramsey' a sut oedd dod i hoffi pêl-droed wedi rhoi syniadau newydd a gwahanol iddi wrth fynd ati i ysgrifennu ar gyfer plant. Roedd hyn i gyd ynghanol y bwrlwm Cwpan y Byd ac roedd yn berthnasol iawn i ddiddordeb y disgyblion. Roedd y gweithgaredd yma eto'n rhan o brosiect Pont yr Wylfa ble bod disgyblion Ysgol Craig yr Wylfa, Borth, ac Ysgol Tal-y-bont yn ymuno i gryfhau'r berthynas rhwng y ddwy ysgol.

Prosiectau Sirol

Rydym yn ffodus iawn fod swyddogion Siarter Iaith Ceredigion yn meddwl am brosiectau arbennig i'n hysgolion. I gyd-fynd gyda Chwpan y Byd gwahoddwyd pob ysgol i weithio gyda'r Prifardd Ceri Wyn Jones a chreu cwpled yr un ar gyfer rap arbennig i ddymuno'r gorau i ymdrech tîm pêl-droed Cymru. Doedd hi ddim syndod i'r plant gyfansoddi cwpled am Rhys Norrington-Davies er bod hynny cyn i ni wybod ei fod wedi ei anafu. Dyma'r cwpled –

Rhys Norrington-Davies a sgoriodd y gôl
A ddaeth â'r hen gwpan i Gymru yn ôl!

Hefyd gwahoddwyd pob ysgol i ddysgu pennill; o'r gân 'Yma o Hyd', ffilmio'r ysgol yn ei chanu ac wedyn rhoddwyd y cyfan at ei gilydd yn gelfydd i gyd-ganu gyda'r dyn ei hun – Dafydd Iwan. Da iawn chi blant am ddysgu'r geiriau mor gyflym ac am ganu mor angerddol.

Ac ar ben hynny i gyd, trefnwyd Jambori gan Urdd Gobaith Cymru i bob ysgol yng Nghymru ymuno gyda'i gilydd i ganu rhai o'n caneuon mwyaf adnabyddus – llawer o hwyl a sbri, fel y gallwch ddychmygu.

Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd

Er mwyn gwneud y gorau o gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd a chefnogi'r Urdd ar yr un pryd, trefnodd y Criw Cymraeg i'r plant (ac oedolion!) i wisgo dillad lliw coch, gwyn a gwyrdd am ddiwrnod. Diolch yn fawr am y cyfraniadau tuag at yr Urdd ar y diwrnod.

Hefyd i gyd-fynd gyda Chystadleuaeth Cwpan y Byd trefnwyd Gŵyl Sgiliau Pêl-droed i Flwyddyn 3 a 4 ar gaeau'r Brifysgol yn Aberystwyth gan griw Ceredigion Actif. Cafodd pawb tipyn o hwyl wrth ymarfer eu medrau pêl.

Ysgol y Gymuned

Her ddarllen Llyfrgell Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i'r criw yma fu'n darllen yn ddiwyd dros wyliau'r haf. Yr her eleni oedd ymweld â Llyfrgell 3 gwaith yn ystod gwyliau'r haf a darllen o leiaf 6 llyfr. Wrth ymweld â'r Llyfrgell yn Aberystwyth roedd cyfle i ennill nifer o wobrau'r *Techymwyr* gan gynnwys y medalau pren hardd yma. Da iawn chi gyd a phob hwyl gyda'r darllen i'r dyfodol.

Diwrnod y Cofio

Cawsom gyfraniadau gwych i'n gwasanaeth ysgol gyfan i gofio am ryfeloedd byd y gorffennol a'r presennol. Diolch o galon i Joel am ddod i ddangos y gwrthrychau arbennig yma ac am ddod â'r hanes yn fyw i ni. Roedd clywed stori Bernard y carcharor rhyfel yn rhyfeddol. Diolch yn fawr i'r busnesau lleol am arddangos ein torchau pabis coch yn eu ffenestri. Diolch hefyd i blant Dosbarth Miss Roberts am ddysgu cân hefyd –

“Cofia'r milwyr, cofia nhw. Cofia'r teulu, cofia nhw. O! Dduw, cofia nhw.”

Anrheg Hyfryd

Hoffwn ddiolch o galon i Jenny Jenkins am drefnu i'r ysgol gael yr holl offer chwaraeon newydd. Mae Jenny'n garedig iawn i ni ac yn meddwl y byd o'r ysgol. Diolch hefyd i Street Games am eu rhan yn dosbarthu'r offer i ni.

Ffair y Neuadd

Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb am helpu gyda'r stondin ysgol yn y ffair brysur – yn rhieni a phlant! Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o brysurdeb yn y Neuadd Goffa ac ar ein stondin eleni eto ar ôl cyfnod o dair blynedd o fethu cynnal y Ffair.

Sŵn y Gân

Diolch yn fawr i Ysgol Penweddig am y gwahoddiad caredig i weld y sioe gerdd arbennig yma. Cafwyd sawl perfformiad gwych gan y disgyblion ac roedd hi'n braf iawn i weld ein cyn-ddisgyblion Miri, Oisín a Caoimhe ar y llwyfan a Hedydd yn y côr hefyd. Da iawn chi.

Ysgol Iach

Wythnos Gwrth-fwllo

Yn ystod mis Tachwedd roedd hi'n wythnos gwrth-fwllo cenedlaethol ac fe fanteisiodd yr ysgol ar y cyfle i gynnal trafodaethau bywiog am y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio. Er mwyn pwysleisio fod pawb yn wahanol a bod hawl gan bawb i fod yn wahanol, gwahoddwyd y disgyblion i wisgo sanau gwahanol ac fe gafwyd sawl cyfuniad diddorol! Da iawn chi blant am ymateb mor bositif i'r negeseuon.

Gwersi Lles

Mae pob ysgol yng Nghymru'n dilyn cwricwlwm newydd ers mis Medi. Mae rhai newidiadau pwysig iawn yn y cwricwlwm newydd ac un ohonynt yw gwella'r ddarpariaeth am gydberthynas a phwysigrwyd trin pawb gydag urddas a pharch. Yn ystod y mis daeth disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Craig yr Wylfa draw atom i ddysgu mwy am y pwnc fel rhan o brosiect Pont yr Wylfa.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo pyjamas i'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Cafwyd diwrnod hwyliog iawn gyda llawer o weithgareddau bywiog i godi ymwybyddiaeth o'r achos da. Roedd gweld yr holl gacennau blasus yn wledd i'r llygad a diolch yn fawr i bawb am gyfrannu. Codwyd yn agos i £200 tuag at yr elusen eleni – ymdrech wych. Diolch yn fawr i chi gyd.

Cogurdd

Llongyfarchiadau i Ariana am gynrychioli'r ysgol yn rownd ranbarthol Cystadleuaeth Cogurdd eleni. Cafodd feirniadaeth wych, ac yn ôl y beirniad roedd y frechdan yn blasu'n dda a'r cynnyrch yn lleol i'r fferm. Roedd y cyflwyniad creadigol hefyd yn cael ei ganmol. Da iawn ti.

Cydymdeimlad

Hoffwn estyn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Miss Morris a'i theulu ar ôl eu profedigaeth ddiweddar.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN




Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

Croeso nôl i Ffair y Neuadd



Wedi bwlch o ddwy flynedd roedd hi'n braf medru croesawu'r gymuned yn ôl i Neuadd Goffa Tal-y-bont ddiwedd Tachwedd ar gyfer y Ffair Nadolig gyntaf ers 2019. Roedd y bwrlwm yn amlwg gyda phawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymdeithasu unwaith eto ac i brynu nwyddau lleol a mwynhau paned a chacen a sgwrs.

Newidiwyd ychydig ar y drefn eleni gan roi dewis i'r mudiadau lleol gadw'r elw o'r stondinau ar gyfer eu coffrau. Gwnaethpwyd hyn fel arwydd o ddiolch i'r gymuned am eu cefnogaeth yn ystod cyfnod heriol Covid. Diolch i'r cyhoedd a dyrrodd i gefnogi'r digwyddiad ac i'r stondinau a benderfynodd drosglwyddo eu helw i'r Neuadd, llwyddwyd i godi swm anrhydeddus iawn, sef £1,000. Yn ôl y Trysorydd, Ieuan Morgan, bydd yr elw o gymorth mawr i'r Neuadd wrth wynebu costau cynyddol ac er mwyn gadw costau llogi mor isel ag sy'n bosibl.

Ni chynhaliwyd rafflau unigol ar bob stondin eleni gan ganolbwyntio ar gynnal un raffl fawr yn enw'r Neuadd, gan gynnwys hamper y Cadeirydd. Diolchwyd i aelodau'r pwyllgor a chefnogwyr y Neuadd, yn ogystal â'r busnesau lleol Y Lolfa, Cletwr, Garej Davmor a Fferyllfa Tal-y-bont, am y gwobrau hael.

Wrth gloi'r Ffair diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Janet Jones, i'r mudiadau lleol am gynnal stondinau, sef Sioe Tal-y-bont, Treialon Cŵn Defaid, Merched y Wawr, Papur Pawb, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont, Clwb Ffermwyr Ifanc a'r Clwb Ieuenctid. Roedd hi'n braf iawn hefyd gweld busnesau a chrefftwyr lleol yn dangos eu cynnyrch deniadol, sef Cletwr, Y Lolfa, Gwen Alltgoch, Hannah Doyle, Non Jones a Ruth Jên.

Mawr oedd ein gwerthfawrogiad hefyd o'r criw a fu'n paratoi a gweini'r te a'r cacennau yn ystod y prynhawn.

Wrth i flwyddyn ddirwyn i ben mae'r Pwyllgor Rheoli yn edrych ymlaen at gyfnod prysur arall o gynnal a gwella'r adeilad. Gosodwyd gwydro dwbl newydd ar hanner y ffenestri yn ystod 2022 ac mae cynlluniau ar y gweill i newid gweddill y ffenestri yn ystod y misoedd nesaf. Hefyd, diolch i arian a dderbyniwyd gan Cronfa Eleri cyn y cyfnod clo bydd y cynlluniau i wella a harddu'r Neuadd Waelod yn mynd rhagddynt yn fuan. Y cam nesaf fydd gosod system di-wifr yn y Neuadd er mwyn caniatáu i fudiadau gysylltu â'r We yn ystod cyfarfodydd ac i gynnal cyfarfodydd hybrid.

Gyda'r holl ddatblygiadau hyn ar y gweill mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â Phwyllgor y Neuadd ac fe wahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn chwarae rhan yn y gwaith i gysylltu â'r swyddogion. Yn Awst 2024 byddwn yn dathlu canmlwyddiant agor y Neuadd Goffa, pan fydd modd i ni lawenhau ac ymfalchïo ein bod ni hefyd Yma o Hyd.


D.Ph.D.

David Adams 1845-1922

Eleni mae'n gan mlynedd ers i un o feibion amlycaf Tal-y-bont farw a'i gladdu ym mynwent Tal-y-bont ym mis Gorffennaf 1922. Er nad yw'r enw David Adams yn adnabyddus yn y gymuned hon bellach, yn ei ddydd roedd yn ddyn enwog, nid yn unig yma, ond ledled Cymru.

Roedd tad-cu David Adams yn dod o Sir y Fflint. Symudodd i'r ardal hon yn 1817 i weithio yng ngweithfeydd mwyn Maesnewydd.

David Adams oedd enw hwnnw hefyd ac yma y ganed tad ein David Adams ni, sef John Adams. Crydd wrth ei alwedigaeth oedd yntau ac fe briododd merch leol o'r enw Margaret Davies o Llwynglasfach. Daeth John Adams yn aelod blaenllaw ym Methel gan ddod yn ddiagon ac yn bregethwr achlysurol. Roedd hefyd yn paratoi meddyginiaethau gan ddefnyddio llysiau a phlanhigion.



Bedyddiwyd ein David Adams ni yn 1845 yn bedwerydd ymhlith plant John a Margaret Adams. Cafodd ei addysg mewn ysgol breifat yn y pentref (doedd dim ysgol gynradd fel heddiw yn y dyddiau hynny) a phan symudodd yr athro, caewyd yr ysgol. Gan hynny, fe fu David Adams a rhai o'i gyfoedion yn cerdded i ysgol yn Llandre er mwyn derbyn eu haddysg yno. Mae David Adams yn sôn mewn ysgrif am y profiad hwn - eu bod yn cerdded drwy Allt-y-crib gan hela wyau ysguthanod ac yn dwyn afalau ac eirin o erddi lleol. Roeddent yn ymladd gyda phlant Tai gwynion ar y ffordd.

Ond pan y gorchmynnwyd y plant i fynychu eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn bob Sul petai nhw am aros yn ddisgyblion yn yr ysgol, fe wrthododd y plant gan eu bod yn anghydfurfwyr.

Cafodd David Adams waith ym mwynfeydd plwm Allt-y-crib. Ef oedd yn gyfrifol am y 'round buddle', lle y golchwyd y plwm o'r cerrig, ger yr afon Ceulan, lle mae'r Wern heddiw. Yna, yn 1862, pan sefydlwyd ysgol newydd yn Nhal-y-bont, dan ofal y prifathro enwog T H Kemp, fe aeth David Adams yno fel 'pupil teacher'.

Yn 1863 enillodd le yn y Coleg Normal ym Mangor i hyfforddi i fod yn athro. Wedi'r hyfforddiant, fe gafodd swydd fel athro yn Llanelli yn 1867 ac yna yn Ystradgynlais yn 1870. Agorwyd y coleg newydd yn Aberystwyth yn 1872 ac enillodd David Adams ysgoloriaeth i astudio yno. Wedi graddio yn 1878, derbyniodd alwad i ddod yn weinidog yn ardal Llandysul - talgylch Hawen a Bryngwenith. Ei enw barddol o hynny ymlaen oedd 'Hawen'. Priododd ferch o'r ardal o'r enw Jane Evans.

Erbyn hynny roedd yn barddoni tipyn, gan ennill mewn nifer o eisteddfodau. Enillodd y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1891. Testun ei arwrgerdd oedd 'Oliver Cromwell'. Daeth David Adams hefyd yn ddiwinydd blaenllaw, gan arddel y syniadau crefyddol newydd a geisiai gymhathu crefydd a datblygiad syniadau gwyddonol a bu'n beirniadu hen ddiwinyddiaeth y capeli anghydfurfiol yn y dyddiau hynny. Ei bwyslais ar hyd ei oes oedd ymarferoldeb y ffydd Gristnogol - gwneud nid dweud - gwasanaethu Iesu drwy wasanaethu cyd-ddyn.

Wedi ei gyfnod yn ardal Llandysul aeth David Adams i wasanaethu ym Methesda yn 1888 ac yna ymlaen wedi hynny i gapel Grove Street, Lerpwl yn 1895. Ac yno y bu hyd ei farwolaeth ar 5 Gorffennaf 1922. Yn ei flynyddoedd olaf, enwebwyd ef yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr yn 1913 a dyfarnwyd gradd DD iddo gan Brifysgol Cymru ond bu farw cyn iddo ei derbyn.

Cadwodd ei gysylltiadau â'r ardal hon ac yr oedd aelodau ei deulu yn dal i fyw yma ac mae'n debyg fod Adam Street, Tal-y-bont, wedi'i henwi ar ôl David Adams, gan mai ei deulu ef oedd yn gyfrifol am godi'r tai. Claddwyd David Adams ym mynwent Tal-y-bont ar 10 Gorffennaf 1922 ac mae ei wraig Jane, a fu farw yn 1944, wedi'i chladdu yno hefyd.

GJ



Prosiect Tecstil Gwrid y Gors

Gwyfyn prin lleol yw ffocws prosiect tecstilau cymunedol Cletwr. Yr ychwanegiad diweddaraf i gaffi Cletwr yw tecstil moethus sydd wedi'i wneud gan aelodau'r gymuned leol, gan ddathlu gwyfyn prin iawn sydd i'w gael ar Gors Fochno. Yn ogystal â'r gwyfyn, mae'r tecstil yn arddangos rhai o'r agweddau pwysig a ddiddorol yn ymwneud â natur a'r dirwedd yn y rhan hon o Ogledd Ceredigion. Ymysg y llu o blanhigion, anifeiliaid a thrychfilod mae *Irish Lady's-tresses*, sef tegeirian prin, a ddarganfuwyd gyntaf yng Nghymru ar Gors Fochno yn 2019. Mae bywyd morol Aber Afon Dyfi, a'r adar, y gwartheg duon, a'r defaid sy'n byw yn yr ucheldiroedd hefyd i'w gweld ar y tecstil.

Dechreuwyd y prosiect yn 2020 diolch i gyllid gan Sefydliad Teulu Ashley, ond newidiwyd y cynlluniau gwreiddiol yn sgil y pandemig a'r cyfnod clo. Wrth golli'r cyfarfodydd cyfeillgar yn y caffi, ffurfiwyd grŵp brwdfrydig i gyfathrebu a gweithio trwy Zoom. I rai, fe wnaeth y prosiect leihau unigedd yn ystod y cyfnod clo: "Roedd creu cysylltiadau trwy gyfarfodydd fideo a gweithio drwy'r prosiect gam wrth gam yn rhoi rhywfaint o strwythur a ffocws i'r wythnos", ac roedd y prosiect yn rhoi cymorth i rai aelodau gyda'r straen o fod yn ofalwr neu fyw gyda salwch difrifol.

Bu'r artist Elin Vaughan Crowley, sydd â phrofiad eang o arwain prosiectau celfyddydau cymunedol, yn cefnogi'r grŵp i ddarganfod a darlunio'r pethau sy'n bwysig ym mhentrefi Tre Taliesin a Thre'r Ddôl a'r ardal. Roedd rhai aelodau o'r grŵp wedi'u cyffroi gan y teithiau cerdded yr oeddent yn eu gwneud yn ystod y cyfnod clo; edrychodd eraill yn agosach ar y planhigion a'r anifeiliaid y daethant ar eu traws. Buan y daeth Cors Fochno, y gyfargors a'r warchodfa natur sy'n ymestyn o'r pentrefi i lawr i Aber Afon Dyfi, yn ganolbwynt i'r gwaith celf. Cymerodd Elin y darluniau unigol a'r printiau leino a wnaed gan aelodau'r grŵp a chreu cynllun bendigedig gyda Gwrid y Gors yn ei ganol.

Daeth y dyluniad yn fyw gydag amrywiaeth o sgiliau, gan gynnwys brodwaith pwyth, crosio, appliqué a ffeltio nodwydd. Datblygodd y prosiect wrth i fwy o bobl gymryd rhan a chafodd ei gwblhau ym mis Awst 2022.

Mae tecstil Gwrid y Gors yn adlewyrchiad o frwdfrydedd y gymuned greadigol yn ardal Llangynfelyn ac o rôl Cletwr wrth ddod â phobl at ei gilydd.



Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Medi Jones Jackson, Bow Street, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod ar brynhawn dydd Mawrth, 8 Tachwedd a bu'n sôn am rai o 'Ferched Enwog Cymru'. Cafodd Medi ei hysbrydoli i ysgrifennu'r gyfrol *Genod Gwych a Merched Medrus* oherwydd y diffyg sylw sydd i hanes merched o Gymru. Mwynhaodd y gwaith o ymchwilio i hanes y merched ac ar ôl llunio rhestr hir o rai cymwys ar draws Cymru, yn y diwedd



penderfynodd gynnwys hanes chwech ar hugain o ferched hanesyddol a chyfredol i'w cynnwys yn y gyfrol. Mae cymaint o fenywod yn ein hanes wedi cael eu hanghofio, ac mae angen inni ddathlu eu cyfraniad i'n gwlad a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt. Mae pob un o'r merched rhyfeddol yn y gyfrol wedi gwneud enw iddi'i hun yn ei maes ei hun, megis cerddoriaeth, llenyddiaeth, hanes, seryddiaeth, gwyddoniaeth, celf, chwaraeon a llawer mwy. Yn y gyfrol daw'r straeon yn fyw gyda llawer o ffeithiau a delweddau lliwgar, gyda phosau a gweithgareddau yng nghefn y llyfr i gadw diddordeb y darllenwyr ifanc. Yn dilyn llwyddiant y gyfrol gyntaf, cyhoeddwyd ail gyfrol o *Genod Gwych a Merched Medrus*, ac erbyn hyn cyhoeddwyd y llyfr yn Saesneg o dan y teitl *Wondrous Women of Wales*. Yn ystod y cyfarfod dewisodd Medi dair o ferched dylanwadol i sôn wrthym amdanynt, sef Frances Hoggan, Annie Atkins a Vulcana, a'r rhain yn enwau anghyfarwydd i nifer ohonom. Diolchwyd yn fawr i Medi am ei gweledigaeth wrth gyhoeddi llyfrau o'r fath fel bod plant Cymru heddiw yn dysgu mwy am ein hanes. Mwynhawyd y te a baratowyd gan Non Griffiths (gyda chyfraniad gan Eirlys Jones a fethodd bod yn bresennol).

OUT OF OFFICE STUDIO

ADEILADAU NEWYDD | ESTYNIADAU | TRAWSNEWIDAU | DATBLYGU TIR

CYFEIRIAD
Out Of Office Studio LLP
4 Cambrian Terrace
SY20 8TR

FFON
+ 44 7984399315

AR-LEIN
office@o-o-studio.com
www.outofficestudio.co.uk

arb
Architects
Registration
Board

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

parhad o dudalen 1

Y Ffair Aeaf



Llongyfarchiadau mawr i'r teulu ar eu llwyddiant a phob lwc gyda'r cystadlu i'r dyfodol a gyda'r gwaith caled wrth i ni nesáu at y Nadolig.

Un arall a fu'n brysur yn y Ffair Aeaf oedd Eleri Wyn Jenkins, Cerrigaranau. Cafodd ei dewis i feirniadu'r Cobiau Cymreig Adran B. Roedd yn dipyn o anrhydedd iddi gael ei dewis ar gyfer y swydd hon.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2022 / 23

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dylid danfon ceisiadau at:-

Ellen ap Gwynn

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Garreg Wen, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5HJ

ceulanamaesmawr@gmx.com

Dyddiad cau: 16 Ionawr 2023

Cletwr

Mae e-bost diddorol newydd gyrraedd caff Cletwr o Begwn y Gogledd. Er ei fod yn amser hynod o brysur iddo, mae Siôn Corn wedi cytuno i ymweld â Cletwr am gwpl o oriau i gwrdd â'r plant lleol (ond dim ond y rhai da, wrth gwrs) a gofyn iddo beth fydden nhw am ei gael am y 'Dolig. Bydd e yma ar dydd Sadwrn 10 Rhagfyr, rhwng 14.30 a 16.00. Does dim angen bwcio, dim ond troi lan, £2 y pen.

Ac wrth feddwl am Nadolig, mae Cletwr yn cynnig gwasanaeth archebu cig a llysiau eto. Cewch archebu eich holl llysiau, cig a manion (fel stwffin, saws bara, mins peis ac ati) a'u casglu o Cletwr ar Noswyl y Nadolig - dim angen felly ymladd yn y dre gyda channoedd o bobl. Mae'r cig yn dod o Bow Street, ond cawn archebu o Rob Rattray hefyd. Rhaid llenwi ffurflen gyda'ch anghenion (ar gael o'r siop) a'i ddychwelyd erbyn Sadwrn 19eg.

Unwaith eto, fe fydd Eglwys Blwyf Llangynfelyn yn trefnu Gwasanaeth Carolau Cymunedol yn y Cletwr, Dydd Sadwrn 17eg am 16.00. Croeso cynnes i bawb.

Fe gawsom ni ffair crefftiau Nadolig llwyddiannus iawn ar yr 2il o Ragfyr - llawer o bobl yn dod i brynu anrhegion, bwyta cawl a mins peis, yfed gwin cynnes a gwrando ar y band a'r canwyr clychau-llaw. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu.

Ond mae rhai pethau yn digwydd heb gysylltiad gyda'r Nadolig. Ar 22ain o Ragfyr fe fydd ein ffrindiau o Syria yn dod unwaith eto gyda'i bwyd blasus, traddodiadol. Ffoniwch 07488 554220 neu e-bostiwch syriandinner.uk@gmail.com syriandinner.uk@gmail.com i archebu lle.

Wedi cael tegan teci newydd gan Siôn Corn, iPad, tabled, gliniadur? Methu ei ddeall? Mae Cletwr yn rhedeg cyfres o sesiynau cymorth TG am ddim gyda'r Doctor Digi - rhwng 10 a 11.30 ar 19/12 9/1, 23/1 a 6/2. Dewch yn llw.

Fel rhan o'r cynllun hybiau cynnes, bydd Cletwr yn cynnig lle i bobl ymlacio yng nghynhesrwydd y caff gyda phowlen o gawl a rhodyn (am ddim) bob dydd Iau dros y gaeaf.

Ac yn olaf am y mis 'ma - peidiwch anghofio bod Cletwr yn darparu'r anrhegion Nadolig perffaith i bawb - mam, dad, nain, taid, y bobl drws nesaf - sef ein basgedi arbennig. Gofynnwch yn y siop am fanylion.

Nadolig llawen i chi i gyd oddi wrth holl staff a gwirfoddolwyr Cletwr.

NC





Doctor Digi

Galw heibio - help TG i bawb


10.00 - 11.30

5/12, 19/12, 9/1, 23/1, 6/2

Mae Cletwr yn cynnig cyfres o sesiynau AM DDIM

www.cletwr.com

01970 832 113  cletwr@cletwr.com

Adolygiad

Gwyn Jenkins:

Cymru Ddoe Mewn Lliw a Llun

(Y Lolfa, 2022) £19.99



Y ffermwr lleol J M Jenkins yn beirniadu yn sioe 1939

Mae gan Wasg y Lolfa draddodiad anrhydeddus o gynhyrchu llyfrau bwrdd o safon dros y blynyddoedd diwethaf a dyma gyfrol arall at y casgliad hynny. Yr awdur lleol Gwyn Jenkins sydd yn gyfrifol am y dewis a'r dethol ac yn y rhagair mae'n cyfaddef fod hynny wedi bod yn anodd gan fod y ffotograffau'n rhan o gasgliadau helaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ond does dim dwywaith ei fod wedi llwyddo i ddewis delweddau trawiadol a phwrpasol i ddehongli agweddau o fywyd Cymru'r gorffennol.

Er mai llyfr lluniau yw'r gyfrol, yr hyn sy'n wahanol yma yw bod y ffotograffau wedi eu cyflwyno i ni mewn lliw llawn yn hytrach nag yn y du a gwyn gwreiddiol. Mae hynny'n awgrymu'n gryf bod cryn dipyn o waith ymchwil wedi bod i benderfynu ar y lliwiau mwyaf addas i'w defnyddio yn y lluniau. Wrth gwrs, er mwyn i hyn weithio, mae'n rhaid sicrhau bod y gwaith technegol i gyd o'r radd flaenaf. Nid yw 'lliwio' lluniau du a gwyn yn rhywbeth newydd, ond mae meddalwedd cyfredol yn gwneud y gwaith tipyn haws, ac mae Gwyn yn canmol gwaith amyneddgar y dylunydd Richard Huw Pritchard wrth greu'r 'adlewyrchiad o realiti'.

Mae cymysgedd ddiddorol iawn o luniau yma sy'n dangos y newidiadau a fu mewn cymdeithas ar hyd y blynyddoedd, er enghraifft, mewn ffasiynau, trafniadaeth ac yn arbennig efallai y newidiadau mewn amaethyddiaeth a bywyd cefn gwlad yn gyffredinol. Mae pobol yn rhan ganolog o bob llun, ac mae'n syndod gweld cymaint yn gweithio mewn gwahanol ddiwydiannau. Mae'r llun o ddiwrnod cneifio ar Ystâd Glanbrân, Llanymddyfri, yn enghraifft dda o'r gymdeithas glos oedd yn bodoli yng nghefn gwlad.

Dydy hi ddim yn synod i ddeall bod llawer o luniau Geoff Charles, y ffoto-newyddiadurwr enwog yn gymaint rhan o'r gyfrol, ond mae'n braf gweld cynnwys lluniau y ffotograffydd lleol E.O. Jones hefyd. Efallai eich bod wedi eu gweld yn ddu a gwyn o'r blaen yn *Un Ennyd Fer* (gol. Hefin Llwyd), a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ôl. Diddorol oedd gweld llun lliw o hen Swyddfa Bost Tal-y-bont, sydd wedi hen ddiflannu erbyn hyn. Ac mae un ffotograff arall o ddiddordeb lleol hefyd, sef llun J.M. Jenkins o Dre Taliesin, un o sylfaenwyr Cymdeithas Gwartheg Duon Cymru, yn beirniadu yn Sioe Frenhinol Caernarfon yn 1939. A sut ydw i'n gwybod hynny? Wel, oherwydd bod nodiadau cryno, difyr yn cyd-fynd â phob llun sy'n gosod y cyfan mewn cyd-destun. Maent yn ychwanegu cymaint at ein dealltwriaeth o'r delweddau gan nodi lleoliad, enwau pobl a dyddiadau ble mae'n bosib.

Dyma gyfrol na fydd pall ar y mwynhad o bori drwyddi ac mae'n siŵr y byddwch, fel finnau, yn gweld rhywbeth gwahanol bob tro. Mae'n anodd iawn dewis llun gorau gan fod cymaint yn ennyn chwylfrydedd, ond efallai y ddelwedd o ddau blentyn yn chwarae'n braf ar eu fferm yng Nghapel Celyn ychydig cyn boddi'r pentref wnaeth yr argraff fwyaf arna i.

Dyma gyfrol hyfryd i'w chael ar eich bwrdd coffi ac anrheg Nadolig perffaith!

Hefin Jones

Colofn Elin a Ben

Wrth i ni agosau at y Nadolig, rydym yn sylweddoli o bosib fydd y Nadolig yn wahanol iawn i nifer fawr ohonom eleni, wrth i dalu'r biliau hanfodol amsugno rhan fwyaf o gyllid y cartref, a'r gwasgfa ar aelwydydd a theuluoedd i'w deimlo yn fwy nag erioed.

Yn anffodus doedd ddim llawer o gysur i'w gael o Ddatganiad yr Hydref y Canghellor, ac er cyhoeddwyd £1.2biliwn ychwanegol i Gymru, gwyddwn nad yw hyn yn mynd i fod yn ddigon i amddiffyn ein gwasanaethau hanfodol. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bydd angen £4biliwn i wneud hyn. Roedd yn ofid hefyd i glywed fod y Canghellor wedi galluogi i'r cap prisiau ynni i godi hyd £3,000 yn mis Ebrill.

Er hyn oll, mi wnaeth Llywodraeth San Steffan gyhoeddi bydd cynnydd yn y Taliad Tanwydd Amgen o £100 i £200, ond does dim manylion o hyd o ran sut a phryd fydd y taliad yn cael ei wneud, sy'n rhwystredig.

Os fyddwch chi'n ei chael yn anodd i dalu eich biliau, cysylltwch â'ch cyflenwyr ynni yn y lle cyntaf. Mae cymorth gwych ar gael ar wefan Cyngor ar Bopeth (www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/) ac am gygor ar ddyledion cysylltwch â nhw'n uniongyrchol drwy ffonio 01239 622020. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynnal sesiynau dros y sir, ble gallwch siarad yn uniongyrchol gyda'u swyddogion.

Os fyddwch chi'n teimlo yr angen i drafod eich gofidion mae yna nifer o sefydliadau gallai fod o gymorth, gan gynnwys llinellau cymorth 24 awr y Samariaid 116 123 a CALL 0800 132 737.

Braf clywed fod nifer o bobl yn dod at ei gilydd i greu Mannau Croeso Cynnes dros y sir, fydd yn cynnig cyfle i bawb gynhesu a chymdeithasu mewn awyrgylch groesawgar iawn. Bydd pob un yn unigryw, ac ar amserau wahanola ceir restr ohonynt ar wefan y Cyngor, neu gallwch eu ffonio ar 01545 570881.

Rydyn ni'n parhau i dderbyn ymholiadau a chwynion am wasanaethau bws y sir, gyda gofid yn ddiweddar hefyd am y gwasanaeth 585 o Aberystwyth i Lamed, wrth i'r Cyngor gael trafferth i ddenu cwmni bysus i redeg y gwasanaeth. Rydyn ni'n dau yn cwrdd â Gweinidog Llywodraeth Cymru i gael diweddariad am gynlluniau ar gyfer y sir a allwn eich sicrhau byddwn yn parhau i atgoffa'r Llywodraeth yn rheolaidd o'r trafferthion a'r teimladau sydd gan nifer fawr o'n etholwyr.

Mae'n braf gweld gymaint o ffeiriau Nadolig dros y sir yn arddangos llafur cariad crefftwyr a chynhyrchwyr Ceredigion yn eu holl ysblander. Cofiwch gefnogi drwy siopa mor lleol â phosib.

Sut bynnag fydd y Nadolig yn edrych i chi eleni, cadwch yn gynnes ac yn ddiogel a chofiwch gysylltu â ni os allwn fod o unrhyw gymorth. Dymuniadau gorau i chi gyd dros yr ŵyl, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chi oll.



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

M 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
E alun.davies142@btinternet.com

Dod i Nabod... Cerian Screen Fferyllfa Tal-y-bont

Ganed Cerian yn Wrecsam ond yn dair blwydd oed symudodd gyda'r teulu i Gasnewydd a bu'n byw yno ac yng Nghaerdydd tan yn ddeunaw. Marchogaeth oedd ei phrif ddiddordeb ac ar derfyn addysg uwchradd cofrestrodd ar gwrs Astudiaethau Ceffylau yng Ngholeg Amaethyddol Cymru, Llanbadarn, un o'r grŵp cyntaf i ddilyn y cwrs. Mae Cerian yn cofio'r sioc o ddarganfod y gost o gludo ei cheffyl i Lanbadarn a phenderfynu reidio bob cam o Gasnewydd i'r campws – taith tri diwrnod dros y Bannau a godre Pumlumon! Bu'n gweithio mewn stablau ym Mhrydain a'r Almaen ond sylweddolodd bod rhaid newid cyfeiriad i sicrhau gyrfa a chyflog parchus. Er iddi ystyried meddygaeth a milfeddygaeth dewisodd hyfforddi fel fferylllydd a dechrau ar gwrs tair blynedd yn Ysgol Fferylliaeth Caerdydd. Mae'n ddigon parod i gydnabod bod y ffaith mai fferylllydd oedd ei thad yn ffactor yn y penderfyniad.

Ar ôl graddio, cafodd swydd yn fferyllfa Lloyds yn Aberystwyth a bu yno tan 2015. Cyfnod tawel di-heriol ar y cyfan – disgwyl tu 'nôl i'r cownter, derbyn y presgripsiwn a chyflwyno'r moddion neu'r tabledi. Dyma hefyd gychwyn ei brwydr yn erbyn ysmegu trwy weithio i ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Cymru i atal y ddibyniaeth niweidiol ar sigarennau. Y cam nesaf oedd gweithio fel locwm yn y Borth ac yna dod pedair blynedd yn ôl i Dal-y-bont.

Ers hynny profodd Cerian chwyldro yn ei gwaith. Bellach, rhan yn unig o'i dyletswyddau yw parato'r presgripsiwn ac erbyn hyn mae hithau a phob fferylllydd yn cwblhau tasgau ac ysgwyddo cyfrifoldebau a fu cynt yn nwylo doctoriaid a nyrsys. Nawr y fferylllydd yw'r gofawr a'r cynghorydd cyntaf. Mae'n trin mân anafiadau, pwytho a chau clwyfau ac yn rhoi cyngor ar lu o afiechydon cyffredin. Ymateb cyson ymhlith cwsmeriaid yw'r awydd i osgoi mynd at y doctor ond weithiau rhaid gwneud ac wrth wraidd pob ymgynghoriad mae Cerian yn gorfod troedio'r ffin rhwng gwybod pryd i drin yn y fferyllfa a phryd i ddatgan bod rhaid mynd at y meddyg neu'r Uned Frys yn Bronglais. Elfen bwysig o'r gwaith yw rhoi brechiad COVID a Ffliw ac mae nifer cynyddol o drigolion yr ardal yn dewis galw yn y fferyllfa yn hytrach na dibynnu ar glinig yn y dre. Mae'r cyfrifoldebau ychwanegol yn gofyn am hyfforddiant a gwella'r cyfleusterau ac mae pawb sy'n troi i mewn yn sicr wedi sylwi ar y stafell ymgynghori lle gellir trafod a derbyn triniaeth yn breifat.

Erys y dileit yn marchogaeth a cheffylau. Yn ei chartref yn Cilcennin mae Cerian yn cadw naw cheffyl, yn eu plith un categori C a dau categori D (mae'n pwysleisio gyda gwên y bydd darllenwyr *Papur Pawb* yn ddigon deallus i wybod beth olygir gan y categorïau!), un poni Connemara a Donnatella cheffyl pedair ar ddeg mlwydd oed. Profodd y ddwy – Cerian a Donnatella – gryn lwyddiant, i ddechrau mewn campau neidio ac yn hwyrach mewn cystadlaethau *dressage* lle mae'n rhaid i'r cheffyl droedio'n osgeiddig o un cam i'r llall. Yn y gamp cyrhaeddodd Cerian safle uchel mewn pencampwriaeth Brydeinig yn Stoneleigh. Yn sgil sawl cwmp rhoddodd y gorau i neidio dros y ffensys gan adael i'w merch Caoimhe lanw'r bwch.



Cerian ar gefn 'Donna Bella' ym Mhencampwriaeth Dressage Prydain

Pan holwyd Cerian am y peth gorau am ei swydd daeth yr ateb ar unwaith. Mae wrth ei bodd yn gweithio yn Nhal-y-bont, yn cael y pentref a'r fro yn hyfryd ac yn wir fwynhau dod i nabod trigolion yr ardal. A'r peth gwaethaf? Nad oes digon o oriau yn y dydd i gyfarch cwsmeriaid a bod gormod o'r oriau yn cael eu llanw gan waith papur.

Mewn cyfnod o grebachu cyson ar wasanaethau, yn arbennig ym maes iechyd mae'n galondid gweld ehangu ar y gwasanaeth a gynigir yn y fan a'r lle o fferyllfa Tal-y-bont. Yn aml mae ciw wrth y drws a Cerian yno yn awyddus i groesawu gyda gair o gymorth a chynghor parod. Dim syndod iddi lwyddo yn ddiweddar i gyrraedd yr ail safle yng Ngwobrau Fferylliaeth Annibynnol Llundain am ei gwasanaeth ardderchog i'r gymuned. Pob clod iddi a diolch am fod yn ddolen bwysig a lleol yn yr ymgais at iechyd da.

GIE

	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galw'ch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

MONITRO DIOGELWCH
24 AWR

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda **Wales REMOVALS**

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Tel: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ www.midwalesstorage.co.uk



Clwb Gwawr y Pennau

Nos Iau 10fed o Dachwedd bu nifer o aelodau'r clwb yn gweld sioe gerdd Ysgol Penweddig – Sŵn y Gân. Roedd y sioe'n arbennig a phawb wedi mwynhau'n arw. Diolch i Helena am drefnu. Nos Wener 11eg o Dachwedd bu Nest Gwilym, Rhian Nemes a Delyth Huws yn cynrychioli'r clwb yng nghwis cenedlaethol Merched y Wawr. Yn Neuadd Goffa Aberaeron roedd y cwis yn cael ei gynnal i ranbarth Ceredigion a daeth y merched yn gydradd 3ydd o blith 26 o dimau yn y rhanbarth. Llongyfarchiadau!

Y Gair Olaf



Clync-clync! Clync-clync!

Methu cysgu. Noson dawl arall yn Nhre Taliesin. Dim smic heblaw'r hen dwrw 'na... clync-clync...

Naci, nid sŵn 'nghalon yn rasio ydio wrth hel meddyliau am holl drallodion y byd... Pwtin yn 'i rhempio hi yn Wcrain – clync-clync!

Tymheredd y byd yn codi a byd natur yn drysu – clync-clync!

Swyddogion Heddlu Gwent a mannau eraill yn gyrru negesau ffaidd at ei gilydd – clync-clync!

Hen bobl yn fferru yn eu tai ac yn mynd heb fwyd maethlon – clync-clync!

Brexit – clync-clync!

Newyn echrydus yn nwyrain Affrica – clync-clync!

Aiatolas Iran yn mwrddro i gadw merched yn gaeth – clync-clync!

Cychod bach yn suddo yn y Sianel – clync-clync!...

Ond y broblem waethaf un yma yn Nhre'r Figin ers misoedd lawer ydi cael Openreach i drwsio caead swnllyd yr hen dwll archwilio 'na yn y ffordd yn union y tu allan i'n tŷ ni. Miloedd o glyncs ddydd a nos gyda phob set o olwynion. Wedi i ni siarad ag ambell robot a gyrru e-byst rhif y gwllith, dal i aros mae rhywun am ateb i'r broblem.

Ac os yw hi'n cymryd cymaint o amser i Openreach drwsio caead twll archwilio yn yr 21fed ganrif a'i holl glyfrwch honedig pa obaith y bydd yr holl bethau eraill yn cael eu datrys?

Pawb a'i fys, hwnna ydio! Clync-clync!

Martin Dafis

CFfi Tal-y-bont



Mae hi wedi bod yn fis eithriadol o brysur i aelodau'r clwb. Ar ddechrau mis Tachwedd fe wnaethom ni gystadlu yn Eisteddfod C.Ff.I Ceredigion. Daeth Ioan yn 2il yn yr Unawd 16 ac iau, Cadi yn 2il yn y Canu Emyrn, Beca yn ail yn yr Unawd Sioe Gerdd, a Beca a Cadi yn gydradd 3ydd yn y Ddeuawd. Cafodd criw o'r clwb hefyd hwyl ar y cystadlu yn y Meimio i Gerddoriaeth. Aeth Beca yn ei blaen i gynrychioli'r sir yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn yr Alaw Werin. Llongyfarchiadau iddi hi ar ddod yn 2ail yn y gystadleuaeth honno yn Abergwaun ar 19 Tachwedd, gan helpu Ceredigion i sicrhau y safle cyntaf yn yr Eisteddfod. Roedd sawl gweithgaredd hwyliog i'r holl aelodau ym mis Tachwedd hefyd - trip i'r sinema, golf yn Llanrhystud ac ymarfer ar gyfer y Chwaraeon Dan Do. Cafodd y noson honno ei chynnal yn Llanddewi Brefi ar 25 Tachwedd. Buodd criw hefyd yn rhedeg bwrdd tombola yn Ffair Neuadd Goffa Talybont. Ac i gloi'r mis roedd llwyddiant i Ynyr, wrth iddo ddod yn 2il yn y gystadleuaeth Barnu Wyn Cigyddion yn y Sioe Aef yn Llanellwedd. Diolch i bawb am yrru yr aelodau i'r gwahanol gystadlaethau a gweithgareddau, ac am eich cefnogaeth. Heb eich help chi, ni fyddai clwb.

Gwen



6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk

07813 827 712

@cwtshllaeth



Jenkins, Cerrigaranau Uchaf,
Talybont

Chwaraeon a Hamdden



Lefi yn y stadiwm

Lefi yn Qatar

Er na chafodd Cymru fawr o hwyl ar y meysydd pêl-droed yn Nghwpan y Byd, fe gafodd nifer o Gymry brofiadau bythgofiadwy yn y Dwyrain Canol wrth ddilyn y tîm. Un ohonynt oedd Lefi Gruffudd a dyma'i adroddiad ecscliwsif ar gyfer *Papur Pawb*:

'Expect Amazing' oedd un o sloganau'r Cwpan Byd yn Qatar, ac fel y rhan fwyaf o gefnogwyr aeth allan i'r dwyrain canol, doedd gyda fi fawr o syniad beth i'w ddisgwyl yn Dubai a Qatar wrth ddilyn fy ngwlad.

Wrth fynd ar liwt ein hunain do'n i ddim wedi disgwyl treulio tridiau yn hen dref Dubai, heb un cefnogwr Cymru i'w weld yn unman, a do'n i ddim wedi bargeinio am bum niwrnod o deithio di-baid a cholli dwy noson o gwsg wrth grwydro mewn trenau tanddaearol ac ar droed mewn gwledydd mor hurt o fawreddog a chyferbyniol.

Yn naturiol, roedd rhaid mynd i weld rhai o'r rhyfeddodau twristaidd, fel y Burge Khalifa, adeilad tala'r byd, sydd ynghlwm â'r ganolfan siopa fwy drudfawr ac annioddefol yn y byd. Llauer mwy o hwyl oedd crwydro'r hen Souk yn yr hen dref yn ceisio osgoi prynu watshys rolex ffug rhwng paneidiau. Ar ôl i bawb frolio'r gwres, do'n i heb ddisgwyl cael fy nal mewn llifogydd, fel wnes i, wrth i Dubai gael ei dilyw flynyddol, annisgwyl. Ond dyna fu, a finnau a chyfeillion gorfod mochel y glaw yn un o stondinau'r farchnad, diolch i garedigrwydd dyn busnes hael, Amin, gan brofi awr yn ei gwmni difyr – y dyn cynta yn y byd i fi gyfarfod a oedd wedi clywed am Gymru ond erioed wedi clywed am Gareth Bale.

Roedd diwrnod y gêm yn ymdrech Fabinogaidd, gan ddal awyren ben bore, crwydro Doha i weld y llun anferth o Gareth Bale, cyn ymgolli yn holl gyffro'r dydd i ddychwelyd erbyn brecwast y bore wedyn. Yn Doha ro'n ni'n diolch byth fod cymaint o Archentwyr i greu awyrgylch ac i gyd-ganu'n cân ni am Diego Maradona. Gyda phob gwlad yn rhannu'r un ddinas, digon anweledig oedd y Wal Goch, ond mi gafon ni glod a lot o hwyl yn y gêm, wrth fod yn ganolbwynt y byd am un foment fawr, o leia.

Mi wenais ac mi griaais wrth ganu'r anthem (a gweld Dwynwen Morgan ar y sgrin fawr!). Mi orfoleddais wrth weld Gareth Bale yn sgorio. Ond er mor annisgwyl a syfrdanol oedd llawer o'r profiadau yn y Cwpan Byd rhyfygus hwn, dwi wedi hen dderbyn nad oes dim byd 'amazing' am safon ein tîm pêl-droed erbyn hyn, yn anffodus.'



Dwynwen Allt-goch (gyda'i giwr Dylan) yn morio canu'r anthem



Noson yng nghwmni Twm Morys a Gwyneth Glyn

Wedi cyfnod hir o dawelwch daeth cyfle unwaith eto i Sesiwn Nos Wener Tal-y-bont gychwyn ar raglen newydd sbon o adloniant. Ac yn y noson agoriadol ar 25 Tachwedd dau fardd a dau gerddor oedd y gwesteion cyntaf sef Twm Morus a Gwyneth Glyn. Roedd yr ystafell yn Y Llew Gwyn, Tal-y-bont yn llawn dop, yn wir bu raid chwilio am seti ychwanegol!

Aeth y ddau a ni ar daith gerddorol o gwmpas Cymru a thu hwnt drwy ganeuon gwerin a gwreiddiol a mawr fu'r chwerthin wrth i ni wrando ar Twm yn rhoi cefndir a hanes rhai o'r caneuon cyn eu perfformio.

Bu'r noson agoriadol yn llwyddiant ysgubol o weld ymateb y gynulleidfa ac edrychwn ymlaen at y noson nesaf ym mis Ionawr.

Merched y Wawr Cangen Tal-y-bont a'r Cylch

Braf oedd croesawu nifer dda o aelodau i'n cyfarfod ar Dachwedd 14eg. Ar ddechrau'r noson aethpwyd ati i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer stodin y gangen yn Ffair Nadolig y Neuadd Goffa oedd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn Tachwedd 26ain. Aethpwyd ati hefyd i drafod y manylion ynglyn â'r Gwasanaeth Nadolig Cymunedol a gynhelir nos Sul Rhagfyr 11eg yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont am 6 o'r gloch. Mae yna gryn edrych ymlaen at y gwasanaeth wedi toriad o dair blynedd oherwydd Covid. Yn ôl yr arfer bydd casgliad y noson yn mynd at elusen a phenderfynwyd cefnogi elusen yn y pentref eleni sef Cylch Meithrin Tal-y-bont.

Pleser oedd croesawu ein siaradwr gwadd sef Gwyn Jenkins. Mae Gwyn yn awdur toreithiog ac ymhlith y llyfrau a ysgrifennodd mae Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf, A Welsh County at War, cyfrol luniau Ar Lan y Môr a llyfrau ar bêl-droed. Ei lyfr diweddaraf oedd testun y noson – *Cymru Ddoe: mewn lliw a llun*. Llyfr bwrdd coffi o luniau o archif y Llyfrgell Genedlaethol sy'n adlewyrchu hanes cymdeithasol Cymru yw hwn. Ond drwy ddulliau technoleg fodern, mae'r lluniau du a gwyn gwreiddiol yn ymddangos yn llawn lliw. Roedd pawb o'r farn bod hyn yn rhoi bywyd newydd i'r hen luniau. Mae lluniau o Gymru gyfan yn cael eu cynnwys yn y gyfrol. Ymhlith y lluniau, a oedd o ddiddordeb arbennig i ni, oedd llun o Glwb Beicio Tal-y-bont a llun o John Morgan gôf Tal-y-bont yn pedoli o flaen yr efail. I orffen y noson cafwyd cryn hwyl ar gwis yn adnabod rhai o enwogion Cymru. Noson ddifyr ac yn sicr bydd y gyfrol yn siwr o gael lle mewn sawl hosan Nadolig eleni.

Roedd y noson yng ngofal Trish ac Eirian.